TEITHIAU GWYRDD SIR BENFRO

Arberth i Gei Cresswell

O'r orsaf reilffordd y tu allan i dref wledig fechan Arberth, gallwch gerdded trwy goedwigoedd deri a choedwigoedd conifferaidd i'r felin grawn o'r 19eg ganrif ym Melin Blackpool, ar lannau afon Cleddau Ddu. O'r fan hon mae llwybrau coediog, lonydd gwyrdd a heolydd tawel yn arwain at Gei Cresswell, llecyn hyfryd wrth aber afon Cresswell.

Mae'r llwybr yn 10.5m/16.8km, 5-6 awr. Mae'r llwybr yn croesi sawl nant a gall y lonydd yn yr adran ddeheuol fod yn wlyb iawn ac yn fwdlyd. Esgynfeydd, 238metr/ 773troedfedd, disgynfeydd 309metr/ 1004troedfedd. Gwahaniaeth uchder 91metr/ 295troedfedd o gwymp. Ceir 3 camfa, 2 giât, 2 ryd ac 1 pont droed.



O Orsaf Arberth cerddwch i fyny Teras yr Orsaf, trowch i'r chwith ac yna i'r dde i ganol Arberth.

ARBERTH S, B, BA, Ll, G, MP.
Tren, bysus 322, 381, 390, 391.
Dywed chwedlau canoloesol y Mabinogi am Lys Pwyll yn Arberth. Tyfodd y dref o gwmpas ei chastell Normanaidd a daeth yn ganolfan leol o bwys. Gyda dyfodiad y rheilffordd yn 1866 datblygodd y dref ymhellach i fod yn lle prysur fel y mae heddiw, gydag adeiladau diddorol, siopau ac amgueddfa - lle yr arddangosir paneli'n darlunio'r chwedlau o'r Mabinogion. Mae Arberth ar linell y Landsker, i'r gogledd mae'r Cymry Cymraeg a elwid yn Saesneg 'the Welshry' lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer.

Cerddwch lawr Heol yr Orsaf, gan groesi'r gyffordd o flaen tafarn y Kirkland. Cadwch y Kirkland ar eich ochr chwith a dilynwch y ffordd i'r pen draw lle y croeswch eto a throwch ar y chwith yn union cyn yr ysgol, i mewn i Faes Parcio Town Moor. Yn union wedi mynd heibio'r Clwb Cymdeithasol ar ochr chwith y Maes Parcio, fe welwch y llethr yn arwain at Lôn Carding Mill. Mae Lôn Carding Mill yn arwain at yr hen felin gribo lle y paratoid gwlân ar gyfer ei nyddu. Trowch i'r dde i'r gefnffordd a

pharhewch am 1⁄2m / 3⁄4km, heibio Fferm Returno nes cyrraedd llwybr troed sy'n arwain i Goedwig Canaston ar y chwith.

COEDWIG CANASTON
Mae hon yn ardal fawr o goedwigoedd hynafol, a fu unwaith yn ffynhonnell bren bwysig ar gyfer adeiladu llongau a gwneud golosg yn ogystal â darparu lle hela i fonedd lleol.

Dilynwch y llwybr hyd nes y bydd yn ymuno â llwybr arall, trowch i'r dde ac edrychwch am lwybr ar y dde a fydd yn eich arwain ar Wersyll Cilfoden.

GWERSYLL CILFODEN
Yma ceir olion caer o'r Oes Haearn. Mae'r llwybr yn mynd dros ffosydd a chloddiau a gwrychoedd a fyddai'n fwy na thebyg wedi eu gorchuddio â phalis pren pan ddefnyddid y gaer rhyw 2500 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r gaer yn gartref i rai o'r coed deri hynafol sydd wedi goroesi yn y Goedwig.

Dilynwch y llwybr trwy'r gaer, ar hyd y gefnen ac ymlaen i'r chwith hyd nes y bydd yn ymuno â ffordd y fforest. Trowch i'r dde a dilynwch ffordd y fforest, gan groesi'r A4075 bob cam i Felin Blackpool.

MELIN BLACKPOOL S, B, G (yn yr haf yn unig), T, MP
Melin rawn o ddechrau'r 19eg ganrif wedi ei lleoli ar derfyn llanw aber y Daugleddau. Cludai cychod y grawn a'r blawd i mewn ac allan o bentrefi lleol a phorthladd Aberdaugleddau.

Gan fynd heibio'r felin, ewch ymlaen am 200metr/220llath ar hyd y gefnffordd a mynd ar hyd y llwybr yn arwain i'r goedwig ar y dde. Cadwch ar y llwybr hwn gan fynd heibio llwybr grisiog ar y chwith yn arwain at ardal bicnic ac ar y dde, sy'n rhoi golygfa ar draws gwelyau brwyn y Cleddau Ddu. Dilynwch lwybr y fforest wrth iddo fynd o amgylch i'r chwith, gan groesi'r gefnffordd a dringo i Goedwig Minwear. Wrth ddod allan o'r goedwig ewch ar y llwybr nesaf ar y dde i Forest Lodge. O'r fan honno dilynwch y lôn am 1m/1.6km, trowch i'r dde i'r gefnffordd, croeswch y ffordd ac ewch ar y llwybr cyntaf ar y chwith sydd wedi ei farcio'n llwybr marchogaeth a ganiateir. Dilynwch y llwybr hwn i Fferm Highgate ac ewch i'r dde. Mae llwybrau ffermydd a lonydd gwyrdd yn arwain at Ffermydd Flimston a Campshill. Mae'r lôn yn croesi nant â'r enw Llyn Waddock. Trowch i'r dde ar y gyffordd ac ewch ymlaen trwy'r goedwig i gyffordd arall yn Oak Hill. Trowch i'r chwith a mynd ymlaen yn syth drwy'r ddwy gyffordd nesaf hyd nes i chi ddod i Gei Cresswell.

CEI CRESSWELL B, T, Ll Bysus 361
Bu'n lle prysur ar un adeg , gyda glo, calch, a chynnyrch amaethyddol yn cael eu cludo i lawr yr afon. Ymwelwyr sy'n ymweld â'r lle yn bennaf erbyn hyn i fwynhau awyrgylch y lle arbennig hwn. Nid yw'n anodd credu eich bod 237.5 o filltiroedd o Lundain (fel y nodwyd ar yr hen arwydd 'AA' ar wal y dafarn).

Ymholiadau Rheilffordd Cenedlaethol 08457 48 49 50 Drafnidiaeth Gyhoeddus Cymru ar 0870 608 2608

Allwedd y cyfleusterau ar hyd y daith S - Siop, B - Bwyd a Diodydd, Ba - Banc, Ll - Llety, G - Gwybodaeth, T - Toiledau, MP - Maes Parcio, PS - Parcio Stryd

Dangosir y Pellter Cerdded a Chyfarwyddiadau mewn italeg. Argymhellir copi o Dalen Landranger 158 a 145 Arolwg Ordnans 1:50 neu Dalen Hamdden Awyr Agored 1:25 35 a 36 Arolwg Ordnans. Amcangyfrif yw pob pellter/amser a roddir.